

Fy Nghyf/My Ref: MG/MT/HAE
Eich Cyf / Your Ref:

Dyddiad/Date: Mawrth 2021

Annwyl Riant/Warcheidwad

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'n ddiweddar y bydd yn dechrau rhaglen o brofion COVID-19 asymptomatig mewn lleoliadau addysg a gofal plant ledled Cymru.

Ynghyd â'r prif fesurau amddiffynnol sydd gennym ar waith, megis ymbellhau'n gymdeithasol a hylendid dwylo da, bydd profi yn ein galluogi i roi camau pellach ar waith i helpu disgyblion ac aelodau staff i barhau i weithio mewn amgylchedd mor ddiogel â phosibl. Mae gan hyd at un o bob tri o bobl sydd â COVID-19 y feirws heb symptomau.

Gofynnir i'r holl staff gymryd rhan mewn profion yn y cartref ddwywaith yr wythnos gan ddefnyddio profion Dyfeisiau Llif Unffordd. Os yw'r prawf yn bositif, bydd angen i staff a'u cysylltiadau agos ddechrau hunanynysu ar unwaith, a bydd ail brawf yn cael ei drefnu i gadarnhau'r canlyniadau. Os yw'r prawf cadarnhau yn negatif, bydd pawb y gofynnwyd iddynt ynysu yn gallu dychwelyd i'r ysgol. Os yw'r prawf cadarnhau yn bositif, bydd y cyfnod hunanynysu yn parhau am gyfanswm o 10 diwrnod.

Os bydd aelod o staff sy'n gweithio gyda grŵp cyswllt disgyblion yn cofnodi canlyniad prawf llif unffordd positif, gall hyn olygu y bydd angen i ddisgyblion o fewn y grŵp cyswllt hunanynysu. O ystyried natur y profion, gall hyn olygu y gallech gael gwybod ar fyr rybudd na ddylai eich plentyn fynd i'r ysgol.

Os yw'n ofynnol i'ch plentyn hunanynysu o dan yr amgylchiadau uchod a bod yr aelod o staff wedyn yn cael canlyniad prawf cadarnhau negatif, byddant hwy a chysylltiadau agos, gan gynnwys disgyblion yn y grŵp cyswllt, yn gallu dychwelyd i'r ysgol a byddwn yn rhoi gwybod am hyn i chi cyn gynted â phosibl.

Bydd eich ysgol yn ymdrechu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi cyn gynted â phosibl. Diolch am helpu i gadw ein disgyblion a'n staff yn ddiogel.

Yn gywir



Melanie Godfrey
Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes/
Director of Education and Lifelong Learning

GWEITHIO DROS GAERDYDD, GWEITHIO DROSOCH CHI
Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg, Saesneg neu'n ddwyieithog. Byddwn yn cyfathrebu â chi yn ôl eich dewis, dim ond i chi roi gwybod i ni pa un sydd well gennych. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

WORKING FOR CARDIFF, WORKING FOR YOU
The Council welcomes correspondence in Welsh, English or bilingually. We will ensure that we communicate with you in the language of your choice, as long as you let us know which you prefer. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

